

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
HYBRID 0300 200 6565
Dyddiad: Dydd Llun, 27 Mawrth 2023 Deisebau@senedd.cymru
Amser: 14.00

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(Tudalennau 1 – 21)

**2 Sesiwn dystiolaeth 1 – P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y
sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru (14.00 – 14.40)**
(Tudalennau 22 – 28)

Bethan Sayed, Climate Cymru

Ben Saltmarsh, National Energy Action Cymru

Luke Young, Gyngor ar Bopeth Cymru

3 Deisebau newydd (14.40 – 15.00)

3.1 P-06-1325 Gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn
(Tudalennau 29 – 36)

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-05-1112 Helpwch gymunedau yng Nghymru i brynu asedau cymunedol:
Gweithredwch Ran 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011
(Tudalennau 37 – 38)

4.2 P-06-1190 Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw
ddeunydd tyfu erbyn 2023
(Tudalennau 39 – 40)



- 4.3 P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru
(Tudalennau 41 – 47)
- 4.4 P-06-1275 Galw ar y Llywodraeth i ail-ystyried eu penderfyniad i dynnu nôl o gynllun ffordd osgoi Llanbedr
(Tudalen 48)
- 4.5 P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd
(Tudalen 49)
- 4.6 P-06-1286 Sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID19
(Tudalennau 50 – 52)
- 4.7 P-06-1297 Dod â "llosgi dan reolaeth" i ben yng Nghymru
(Tudalennau 53 – 60)

5 Sesiwn dystiolaeth 2– P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru (15.00 – 15.30)

Dean Kirby, Newyddiadurwr– i Newspaper

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (15.30 – 16.00)

7 Trafodaeth o dystiolaeth – P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Mawrth 2023
Petitions Committee | 13 March 2023

Cyfeirnod: SR23/5378/2

Rhif y ddeiseb: P-06-1326

Teitl y ddeiseb: Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar y Senedd i gynnal ymchwiliad i'r sgandal mesuryddion rhagdalau.

Dros y ddau fis diwethaf, mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg bod miloedd o bobl sydd wedi'u symud i fesuryddion rhagdalau heb y gwiriadau gofynnol o ran a ydynt yn agored i niwed.

Rydym ni yn Climate Cymru ac ymgyrchwyr eraill wedi bod yn datgelu'r sgandal hwn.

Gweler lincs i straeon gan newyddiadurwyr ymgyrchu fel Dean Kirby yn y papur newydd o'r enw i [pob un y tu ôl i wal dalu].

- [Forced installations of prepayment meters to stop as courts ordered to end issuing warrants](#)

- [Prepayment meters must be removed for vulnerable families as compensation is not enough, Grant Schapps told](#)

- [i morning briefing: How the prepayment meter scandal was uncovered, and forced change](#)



- [Prepayment meters: Grant Schapps gives energy firms until Tuesday to consider compensation](#)
- [Prepayment meter investigation](#)

1. Cefndir

1.1. Costau ynni cynyddol

Mae [prisiau ynni cynyddol wedi bod cael llawer o sylw yn y newyddion](#), yn y DU ac ar draws y byd. Mae pris nwy wedi neidio i'r lefel uchaf erioed, gan gymryd prisiau trydan gydag ef, ac achosi i Lywodraeth y DU gamu i mewn i [helpu pobl a busnesau](#).

Mae [pris cyfanwerthu ynni wedi cynyddu](#) oherwydd [cyfuniad o ddigwyddiadau](#), gan arwain at lai o gyflenwad ynghyd â galw cynyddol.

Mae Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, wedi gallu cyfyngu ar y cyfraddau y gall cyflenwr ei godi i gwsmeriaid domestig drwy roi '[cap pris](#)' ar y gost fesul uned o drydan a nwy, yn ogystal â chyfyngiadau ar y tâl sefydlog ar gyfer pob un, ac yn ail-werthuso bob tri mis. Wrth i brisiau cyfanwerthu gynyddu, cynyddodd Ofgem lefel y cap prisiau.

Mewn ymateb i'r [cap ar brisiau](#) yn cynyddu, [cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Warrant Pris Ynni fel mesur ychwanegol dros dro](#), ac ystyr hyn yw y bydd defnyddwyr yn talu llai am ynni nag o dan y cap ar brisiau. Ystyr hyn ar hyn o bryd yw, o fis Ebrill 2023 ymlaen, y bydd aelwyd arferol yn talu bil ynni blyneddol o £3,000 tan ddiwedd mis Mawrth 2024 (ond [disgwylir iddo gael ei gadw ar y lefel bresennol, sef £2,500](#) y flwyddyn).

[Dywed Llywodraeth Cymru:](#)

Yn ôl yr amcangyfrifon presennol, gallai hyd at 45% o bob aelwyd yng Nghymru fod mewn tlodi tanwydd yn sgil y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni.

1.2. Talu ymlaen llaw

Mae mesuryddion rhagdalau yn **fath o fesurydd ynni domestig** sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr dalu am ynni cyn ei ddefnyddio.

Mewn **datganiad gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar**, dywedwyd:

Mae tua 200,000 o aelwydydd yng Nghymru yn defnyddio mesuryddion rhagdalau. Mae hyn tua 15% o bob aelwyd a 24% o denantiaid yn y sector rhentu preifat. Mae bron hanner tenantiaid tai cymdeithasol (45%) yn defnyddio mesuryddion rhagdalau.

Mae ynni'n ddrytach gyda mesurydd rhagdalau o'i gymharu â'r bargeinion debyd uniongyrchol gorau. Hefyd, mae llai o dariffau a chyflenwyr i ddewis ohonynt, ac mae gan gwsmeriaid opsiynau credyd mwy cyfyngedig gan nad ydynt yn gallu mynd i ôl-ddyledion. Cafodd y bwlch rhwng prisiau unedau oedd ar gael i fesuryddion rhagdalau a chwsmeriaid eraill ei leihau drwy'r cap ar brisiau, ac yn fwy diweddar drwy'r Warrant Pris Ynni.

O dan y **Warrant Pris Ynni, mae cwsmeriaid mesuryddion rhagdalau yn talu pris uned is am drydan** na chwsmeriaid eraill. Er hynny, maen nhw'n **talw pris uned uwch am nwy** na chwsmeriaid sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol, ac yn talu taliadau sefydlog uwch na'r holl gwsmeriaid eraill am drydan a nwy.

Mewn **cymhariaeth ddiweddar gan Which?**, ym mis Rhagfyr 2022, canfuwyd gwahaniaeth o £60 y flwyddyn rhwng cytundeb tanwydd dwbl ar gyfer 'cartref nodweddiadol' sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol, a'r un aelwyd sydd â mesurydd rhagdalau.

Canfu arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru fod dros **70 y cant o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalau yng Nghymru yn poeni** am sicrhau bod arian yn eu mesurydd rhagdalau tan fis Ebrill, **a'r hyn a ganlyn**:

Bod 32% o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalau yng Nghymru wedi'u datgysylltu o'u cyflenwad ynni dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd na allan nhw fforddio ychwanegu ato.

Os nad oes gan ddefnyddiwr sydd â mesurydd rhagdalau ddigon o arian i ychwanegu at eu mesurydd, neu pan nad ydynt yn sylweddoli bod y credyd ar y mesurydd yn mynd yn brin, mae eu mesurydd yn datgysylltu. Mae hyn yn cael ei alw'n 'hunan ddatgysylltiad'.

1.3. Mae'r rhai sydd â mesuryddion rhagdalau ar y lefelau incwm isaf, i raddau anghymesur

Mae ymchwil gan y felin drafod annibynnol Resolution Foundation yn dangos bod bron i hanner (48 y cant) teuluoedd Prydain sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalau yn y pumawd incwm isaf.

Dywed Barnardo's Cymru bod angen blaenoriaethu teuluoedd ar fesuryddion rhagdalau i'w newid lle bynnag y bo modd i beidio â rhagdalau, gan fod hyn yn parhau i fod yn dreth tlodi real iawn. At hynny, mae pobl ifanc yn aml yn wynebu rhai o ganlyniadau gwaethaf argyfyngau ariannol, a nhw sy'n debygol o gael eu taro waethaf gan gynyddu prisiau ynni. Mae aelwydydd iau hyd at bedair gwaith yn fwy tebygol o fod â mesuryddion rhagdalau, sy'n eu hatal rhag lledaenu costau ynni yn gyfartal drwy gydol y flwyddyn, gyda llai o gynilion i ddisgyn yn ôl arnynt o'i gymharu â grwpiau oedran hŷn.

1.4. Cwsmeriaid yn cael eu gorfodi i gael mesuryddion rhagdalau

Gall defnyddiwr a chyflenwr gytuno mai mesurydd rhagdalau yw'r opsiwn gorau i helpu i reoli unrhyw daliadau dyled. Fodd bynnag, gall cwmnïau ynni hefyd wneud cais i ynad i orfodi (dan warant) cwsmer i gael mesurydd rhagdalau heb eu caniatâd os ydynt wedi cronni dyledion.

Mae canllawiau arfer da Ofgem ar gyfer cefnogi cwsmeriaid sy'n cael trafferthion wrth dalu yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni nodi cwsmeriaid bregus a chynnig cymorth iddyn nhw os yw eu dyledion yn cronni.

Yn dilyn adroddiadau nad oedd cwmnïau ynni'n gwneud digon i gefnogi cwsmeriaid bregus, ar 22 Ionawr gwnaeth Grant Shapps AS, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y pryd, ysgrifennu at gyflenwyr ynni yn galw arnynt i roi'r gorau i symud defnyddwyr draw i fesuryddion rhagdalau drwy orfod, heb gymryd pob cam i gefnogi defnyddwyr mewn trafferthion.

Yn dilyn hyn, ysgrifennodd Jonathan Brearley, Prif Weithredwr Ofgem, at yr Ysgrifennydd Gwladol yn nodi adolygiadau cydymffurfio â'r farchnad (MCR) blaenorol i ddull llywodraethu a phrosesau cyflenwyr ynghylch sut maen nhw'n trin cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu. Canfuwyd bod gan dri chyflenwyr wendidau difrifol yn y modd maen nhw'n cefnogi'r cwsmeriaid hyn.

Yn ei lythyr, nododd Jonathan Bearley gamau gweithredu arfaethedig Ofgem, gan gynnwys cynnal adolygiad pellach o gydymffurfiaeth â'r farchnad oedd yn canolbwyntio ar arferion cyflenwyr o ran mesuryddion rhagdalau.

Ers hynny, adroddwyd bod 32,790 o warantau wedi eu rhoi ym mis Ionawr i osod mesuryddion rhagdalau drwy rym. Gofynnodd Ofgem i gyflenwyr roi'r gorau i osod drwy rym am y tro a chynnal adolygiad trylwyr o brosesau. Mae ynadon ers hynny wedi cael gorchymyn i roi'r gorau i gyhoeddi gwarantau ar gyfer yr arfer hon yng Nghymru a Lloegr.

Mae Ofgem hefyd wedi galw ar bob cyflenwr i ddefnyddio'r saib o ran gosod mesuryddion (sy'n para tan 31 Mawrth 2023) i adolygu eu holl osodiadau mesuryddion rhagdalau gorfodol ac o bell yn ddiweddar, ac ystyried a oes angen gwrthdroi unrhyw un, a chynnig iawndal lle nad yw'r rheolau llym wedi'u dilyn.

Yn dilyn ymyrraeth gan Aelodau Seneddol ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Net Sero (ar hyn o bryd), Grant Shapps AS, mae cyflenwyr ynni wedi ymrwymo i roi diwedd ar osod mesuryddion rhagdalau gorfodol yng nghartrefi cwsmeriaid bregus.

Bydd Ofgem hefyd yn cynnal ymchwiliad brys i Nwy Prydain, yn dilyn ymchwiliad cudd gan The Times i'r ffordd y gwnaeth y cwmni drin cwsmeriaid pan oedd mesuryddion rhagdalau yn cael eu gosod drwy orfod.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae dosbarthu a chyflenwi trydan, a chyflenwi nwy, yn faterion sy'n cael eu cadw yn ôl i San Steffan o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae diogelu defnyddwyr hefyd yn fater a gedwir yn ôl. Mae'n annhebygol felly y gallai Llywodraeth Cymru gyfyngu neu wahardd gosod mesuryddion rhagdalau.

O ran y cap/gwarant pris ynni, mae hwn hefyd yn fater a gedwir yn ôl, ac mae Ofgem yn atebol i Senedd y DU. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru weithredu cynlluniau i gefnogi pobl yng Nghymru. Er enghraifft ym mis Mehefin 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Talebau Tanwydd i'r rhai sy'n talu ymlaen llaw am ynni, naill ai ar fesuryddion rhagdalau neu lle maen nhw'n ddibynnol ar wresogi olew.

Yn dilyn cyfarfod â chyflenwyr ynni ym mis Ionawr 2023, dywedodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol:

Dywedodd y cyflenwyr wrthyf mai'r dewis olaf yw symud deiliaid tai i fesuryddion rhagdalau, ac er y canfyddiad bod cysylltiad rhwng mesuryddion rhagdalau a dyled, nododd nifer o'r cyflenwyr fod y mwyafrif o'u cwsmeriaid rhagdalau yn defnyddio'r mesuryddion fel offeryn i reoli defnydd.

Cadarnhaodd y cyflenwyr eu bod yn gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â chwsmeriaid cyn ystyried mesurydd rhagdalau ar eu cyfer ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen dilyn proses hir cyn gosod mesurydd o'r fath, a hynny drwy gytundeb â deiliad y tŷ. Mae mesurau ar waith i benderfynu a fyddai mesurydd rhagdalau yn briodol i rywun.

Dywedodd y Gweinidog bod cyflenwyr ynni wedi cytuno i rannu data ynglŷn â nifer yr aelwydydd sy'n derbyn cymorth gyda'u biliau ynni a/neu'n cael eu trosglwyddo i fesuryddion rhagdalau, a'r rhesymau dros wneud hynny. Cytunon nhw hefyd i ddarparu gwybodaeth am 'hunan ddatgysylltiad'.

Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU ac Ofgem i gyflwyno tariff cymdeithasol er mwyn diogelu'r deiliad tai mwyaf agored i niwed, a chafwyd cefnogaeth eang dros y syniad hwn ymhlith cyflenwyr ynni.

Gwnaeth y Gweinidog gwrdd â chwmnïau ynni eto ar 23 Ionawr, a mynegodd ei bod wedi'i brawychu i glywed am nifer y mesuryddion rhagdalau oedd wedi cael eu gosod yn orfodol.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Gofynnwyd cwestiwn amserol yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Ionawr, gan Jack Sargeant AS, lle galwodd am waharddiad ar unwaith ar orfodi gosod mesuryddion rhagdalau. Cafodd y mater ei godi eto yn y Cyfarfod Llawn gan Jack Sargeant ar 1 Mawrth.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd wedi bod yn cynnal ymchwiliad ar ddyled ac effaith costau byw cynyddol. Codwyd mesuryddion rhagdalau a'r hyn a ddatgelwyd yn ddiweddar ynghylch gosod mesuryddion yn orfodol yn ystod yr ymchwiliad hwn ar 30 Ionawr a 13 Chwefror. Nid yw'r Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau eto.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

P-06-1325 Gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Mawrth 2023
Petitions Committee | 27 March 2023

Cyfeirnod: SR23/1325-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1325

Teitl y ddeiseb: Gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw am osod terfyn cyflymder o 30mya ar yr A5 drwy bentref Glasfryn fel mater o frys - cyn i rywun gael ei ladd.

Mae teuluoedd yn byw ar fin y ffordd beryglus yma. Mae busnesau yn cael eu rhedeg ar fin y ffordd ac mae amaethwyr a chontractwyr yn ei defnyddio bob dydd i gynnal busnesau.

Dros y blynyddoedd, bu nifer o ddamweiniau difrifol gan gynnwys un farwolaeth a sawl digwyddiad agos i ddamwain. Mae hwn yn fater brys gan mai dim ond mater o amser ydi hi cyn y ceir digwyddiad difrifol arall.



1. Y cefndir

Mae'r A5 yng Nglasfryn yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd. O ganlyniad, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd, a'r awdurdod traffig sy'n gyfrifol am derfynau cyflymder ar y rhan hon o'r ffordd.

Y terfyn cyflymder drwy'r pentref ar hyn o bryd yw 60mya. Mae'n rhan o'r hyn a elwir yn anffurfiol yn "Driongl Evo", a gafodd yr enw oherwydd bod cylchgrawn EVO yn defnyddio'r rhan 20 milltir o'r ffordd i brofi ceir. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cynllun diogelwch ffyrdd yn yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys gosod camerâu cyflymder cyfartalog ar bob pen o'r A5 trwy Glasfryn. Fodd bynnag nid yw'r trigolion yn credu bod hyn yn ddigonol ac y dylid lleihau'r terfyn cyflymder.

Ar hyn o bryd mae terfynau cyflymder ar ffyrdd Cymru heblaw traffyrdd yn cael eu pennu gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd yn 2009 a elwir yn Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn 2021. Mae hyn yn ymrwmo i adolygu'r dull o bennu terfynau cyflymder.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd, dyddiedig 7 Mawrth, mae Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn dweud bod y terfyn cyflymder yn y pentref wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan ddefnyddio canllawiau 2009. Roedd hynny'n argymhell dim newid.

Fodd bynnag, mae'n pwysleisio bod y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu, ac yn cyfeirio at dudalen we y canllawiau sy'n pwysleisio yr hoffai Llywodraeth Cymru glywed barn ar yr adolygiad. Er nad yw'n cynnwys unrhyw fecanwaith ymateb ffurfiol.

Disgwylir i'r canllawiau wedi'u diweddarau gael eu cyhoeddi "erbyn diwedd y flwyddyn", ac ar yr adeg honno bydd y terfynau cyflymder ar y cefnffyrdd yn cael eu hadolygu eto. Mae'n pwysleisio na fyddai'n briodol adolygu eto gan ddefnyddio'r canllawiau presennol.

Yn y cyfamser, mae'n awgrymu y dylai pryderon gael eu cyfarwyddo i'r bartneriaeth Gan Bwyll sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Pasiodd y Senedd Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ym mis Mehefin 2022 i weithredu polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Bydd hyn yn cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya diofyn ar ffyrdd cyfyngedig - y terfyn diofyn ar hyn o bryd yw 30mya. Er na fyddai hyn yn berthnasol i Glasfryn, mae'n rhan o'r sail ar gyfer yr adolygiad o'r canllawiau terfynau cyflymder y mae'r Dirprwy Weinidog yn cyfeirio atynt.

Rydych wedi ystyried ystod eang o ddeisebau yn galw am newid terfynau cyflymder. Mae rhai yn galw am ostyngiadau cyflymder a / neu fesurau diogelwch ffyrdd eraill. Mae eraill yn gwrthwynebu cyflwyno terfynau cyflymder 20mya.

Codwyd y mater penodol hwn ynglŷn â'r A5 yng Nglasfryn yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi 2022 gan Llyr Gruffydd AS. Dywedodd yr Aelod:

Os teithiwch chi ar yr A5 o Fangor yr holl ffordd i'r Amwythig, Glasfryn yw'r unig bentref ar y siwrnai yna lle does yna ddim cyfyngiadau o safbwynt cyflymdra, er bod yna gyffyrdd prysur yn y pentref, er bod yna dai fetr neu ddau un unig o ymyl y ffordd. Yn wir, yr hyn welwch chi pan fyddwch chi'n cyrraedd y pentref yw arwyddion yn nodi terfyn cyflymder cenedlaethol, sydd, i bob pwrpas, wrth gwrs, yn atgoffa ac yn annog gyrwyr i yrru 60 milltir yr awr, sy'n gwbl annerbyniol.

Tynnodd ymateb y Dirprwy Weinidog sylw at y newidiadau i'r polisi terfyn cyflymder a ddisgrifir uchod. Dywedodd:

.... rwy'n cydnabod bod enghreifftiau i'w cael lle mae'r gymuned yn teimlo bod cyflymder ffyrdd yn rhy gyflym, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried fel rhan o'n pecyn cyffredinol i newid dulliau teithio.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1325
Ein cyf/Our ref LW/00306/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

07 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ynghylch Deiseb P-06-1325 Gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn.

Mae gwella diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid eraill yn barhaus i nodi lleoliadau lle mae angen mesurau peirianeg diogelwch ar y ffordd. Mae barn trigolion lleol yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau gwybodus pan fydd rhannau o ffyrdd yn cael eu hadolygu ac rwy'n gwerthfawrogi natur ddirifol y pryderon sy'n cael eu codi gan y ddeiseb hon.

Rydym wedi adolygu'r terfyn cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn yn erbyn y meini prawf yng nghanllawiau presennol Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru. Er fy mod yn gwerthfawrogi nad dyma'r canlyniad y mae'r deisebydd yn gobeithio amdano, ni argymhellodd yr adolygiad hwnnw unrhyw newid i'r cyfyngiad cyflymder 60mya presennol.

Fodd bynnag, gallaf gadarnhau ein bod yn y broses o ddiweddarau canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru i adlewyrchu polisi presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyflwyno [terfynau cyflymder 20mya](#) ac i gyflawni'r uchelgeisiau a amlygwyd yn [Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021](#). Gall y gwaith hwn olygu newid yn y meini prawf ar gyfer terfynau cyflymder is yng Nghymru. Gallwch gael rhagor o fanylion, gan gynnwys cyfle i roi sylwadau ar y canllawiau presennol, [yma](#). Disgwylir i'r canllawiau diweddaraf gael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn, ac ar ôl hynny byddwn yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd. Ni fyddai'n addas adolygu unrhyw derfynau cyflymder nes bod y canllawiau newydd hyn yn cael eu cyhoeddi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 32
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan Gan Bwyll, y Bartneriaeth Diogelwch Ffyrdd gyfrifoldeb am orfodi terfynau cyflymder a gallaf gadarnhau bod gan y rhan hon o'r A5 Gamerau Cyflymder Cyfartalog yn gweithredu, gan ffurfio rhan o safle gorfodi camerau cyflymder cyfartalog 'Triangl Evo'. Serch hynny, os oes unrhyw bryderon am gyflymder traffig, byddwn yn annog y deisebydd ac unrhyw drigolion lleol pryderus i gysylltu'n uniongyrchol â Gan Bwyll i dynnu sylw at eu pryderon drwy'r dudalen we ganlynol: <https://gosafe.org/contact-us/community-concern/?lang=cy>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee'.

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

**P-06-1325 Lower the speed limit on the A5 through Glasfryn, Correspondence –
Petitioner to Committee, 20.03.23**

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

20 March, 2023

REF: P-06-1325

Dear Petitions Committee

Thank you for the invitation to share my views in light of the document sent to me. In preparation for my response, I have also read the hyperlinked report and the Senedd's ambitions as set out in Llwybr Newydd: the Wales Transport Strategy 2021 in great detail.

I have also studied the **Setting Local Speed Limits in Wales** guidance which clearly states the following:

The current national speed limit on rural single carriageway roads is 60mph and a limit of 70mph applies on rural dual carriageways. 40 and 50mph speed limits may be used where appropriate, and the speed limit in rural towns and villages should generally be 30mph.

Also: Section 5.3 The national speed limit in urban areas is currently 30mph, representing a balance between the mobility and safety of road users, especially the more vulnerable groups.

Local speed limits of 20mph are encouraged where appropriate, particularly in situations

Key points:

- Lower speeds benefits all users of urban roads, especially vulnerable road users.
- Highway authorities are encouraged to adopt the Institution of Highways and Transportation's Urban Safety Management Guidelines. The guidelines propose the use of a road hierarchy approach which reflects a road's function, the mix of vehicular traffic that it carries and its use by vulnerable road users **(In the case of Glasfryn, this would refer to residents of all ages but in particular, the children and families living in the village).**
- The national speed limit in urban areas is currently 30mph.
- Highway authorities are encouraged to consider any new speed limits or modifications to existing limits on an individual case-by-case basis.
- The Welsh Assembly Government encourages and supports 20mph speed limits and zones at appropriate locations. 20mph limits may even be introduced on trunk roads in exceptional circumstances, generally over short lengths and for limited times of the day.

I am deeply concerned that Lee Waters' response to the call for reducing the speed limit on the A5 through the village of Glasfryn, contradicts his own views in parts e.g. *'The views of local residents assist us in making informed decisions when sections of road are reviewed and I appreciate the serious nature of the concerns raised by this petition'*. In writing this, Lee Waters acknowledges that residents' concerns and the possible outcomes of the speed limit being set at 60mph though the village are serious.

In Llwybr Newydd: the Wales Transport Strategy 2021

Section 3 : 0.3

Confidence and safety

We want everyone to feel confident, safe, secure and welcome using the sustainable transport mode of their choice.

I can assure you that the residents of Glasfryn and people living in the wider area **do not** feel safe. This is particularly true of children and the families who live in the village, alongside the busy A5

trunk road. Walking on the pavement e.g. to the village playground does not feel safe when cars speed past at 60mph. Having children picked up and returned on the school transport mini-bus which has to park on the A5 is certainly not safe. The reason being that cars enter the village from the direction of Pentrefoelas around a corner at 60 onto the stretch that is the village and have to break from 60mph to 0mph to avoid hitting the back of the minibus. This happens on a regular basis, however as it has not yet resulted in a serious accident (through sheer luck) it can only be deemed as a 'near-miss'. Also, farm vehicles and lorries enter this stretch of road from junctions at either end of the village. They cannot gather speed at the same rate as cars and when this happens, cars entering the village from either direction at speed overtake through the village or are forced to break to avoid a collision.

Section 5.4 Well-being measures - For safety, we will consider monitoring how safe people feel using different types of public transport, and also walking and cycling.

Children in the village of Glasfryn have expressed publicly and in a TV interview that they do not feel safe and are worried that they or a family member will be killed. It is having a detrimental effect on families' wellbeing. A child who lives less than 2 meters from the road saw his cat being run over and is now even more scared of the speeding cars. Four houses have no option other than to park in the layby which is below their home and is on the A5. Therefore, when opening a car door on one side, they do so into the passing traffic which can appear very suddenly when traveling at speed.

Section 7.4: Roads, Streets and Parking: Our Vision

We will ensure that our roads and streets are safe, well-maintained and managed for all road users, and also support sustainable transport options including active travel and more public transport.

Priorities: introduce a new national default speed limit of 20mph in residential areas and tackle pavement parking.

The point I would like to underline to the Committee is that all the government's narrative around transport focuses on:

- 1. Reduce emissions**
- 2. Reduce the use of cars**
- 3. Improve road safety**

Reducing the speed of driving in Glasfryn would contribute to those goals, therefore the Committee would be wise to underline that and to press for better consistency across the roads policy. In my view, the Minister cannot argue over the above and then ignore the situation in Glasfryn.

Finally, as I have stated in previous correspondence, Glasfryn is the only village on the A5 where cars are allowed to travel at 60mph and is in my view a massive discrepancy and "anomaly" on the part of the Government.

I'm afraid that we cannot afford to wait for the publication of your updated guidance, when you will consider reviewing the speed limits across the trunk road network. In the last 4 months, a speed restriction of 40mph has been implemented on the A5 starting at just before the National Trust centre at Dinas and all the way down to Betws y Coed. This is a winding part of the road with many sharp bends where it is natural that cars will not drive excessively. However, touring motorcyclists visiting the area do speed on this part of the road and there have been accidents. This leads me to question whether the Government values the lives of tourists who chose to risk their lives over the lives of the residents and in particular, children of Glasfryn.

Sincerely

Gwennol Ellis

Cynghorydd Gwennol Ellis
Councillor Gwennol Ellis

P-05-1112 Helpwch gymunedau yng Nghymru i brynu asedau cymunedol: Gweithredwch Ran 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Daniel Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 655 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae cymunedau yng Nghymru yn parhau i golli asedau cymunedol fel tafarndai a meysydd chwaraeon ar gyfradd frawychus. Yn wahanol i Loegr a'r Alban, nid oes gan gymunedau yng Nghymru hawl statudol i wneud cais i brynu asedau o'r fath.

Mae arnom angen deddfwriaeth newydd ynghylch asedau o werth cymunedol yn benodol. Rydym yn galw ar y Llywodraeth nesaf yng Nghymru i weithredu ar unwaith y darpariaethau yn Rhan 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i sicrhau bod gan grwpiau yng Nghymru yr hawl gyfreithiol i brynu a rheoli asedau cymunedol.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae asedau cymunedol yn adeiladu cyfalaf cymdeithasol, iechyd a llesiant. Mae colli asedau cymunedol yn arwain at gymunedau gwannach, cymunedau llai cysylltiedig a chymunedau llai hapus.

Rhoddodd Rhan 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yr hawl gyfreithiol i grwpiau cymunedol wneud cais am asedau o werth cymunedol sydd o dan fgythiad neu sydd ar fin cael eu gwerthu, gan roi'r hawl iddynt redeg yr asedau hyn hefyd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw rhestr o asedau cymunedol o'r fath. Yn yr Alban, grwpiau cymunedol sydd â'r cyfle cyntaf i brynu'r asedau hyn.

(<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn06366/>).

Fodd bynnag, yng Nghymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chymhwyso'r rhannau perthnasol o'r Ddeddf a fyddai'n caniatáu hyn. Mae ein cymunedau, felly, o dan anfantais enfawr o'u cymharu â chymunedau yn Lloegr a'r Alban.

Yn 2015, dywedodd y Gweinidog perthnasol y byddai camau'n cael eu cymryd ynghylch asedau o werth cymunedol gan Lywodraeth Cymru rhwng 2016–21, ond ni ddigwyddodd unrhyw beth.

Byddai gweithredu'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf Lleoliaeth o fudd enfawr i gymunedau yng Nghymru sy'n ysu i achub asedau cymunedol gwerthfawr.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

P-06-1190 Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jake Rayson, ar ôl casglu cyfanswm o 1,013 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae corsydd a rhostiroedd mawn yn eithriadol o bwysig yn y frwydr yn erbyn yr argyfwng hinsawdd; gan ddal a storio carbon yn well na llawer o dirweddau naturiol, lleihau llifogydd a darparu bioamrywiaeth. Mae angen i ni wahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023, gan gynnwys mewnfurion.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Ar hyn o bryd, mawn yw 40% o'r deunydd tyfu a ddefnyddir gan y cyhoedd, a mwy na 60% o'r hyn a ddefnyddir yn y sector proffesiynol. Mae yna ddeunyddiau eraill y gellir eu defnyddio, fel rhisgl coconyt, pren wedi'i gompostio a llwydni dail. Yn hytrach na chloddio mawndiroedd, dylid eu diogelu a'u hadfer.

Dylai'r Senedd ddiogelu ac adfer holl gorsydd a rhostiroedd mawn Cymru ac, yn hollbwysig, sicrhau nad oes unrhyw fawn yn yr holl ddeunydd tyfu sy'n cael ei werthu a'i ddefnyddio yng Nghymru.

- 3 miliwn metr ciwbig o fawn yn cael eu gwerthu at ddefnydd garddwriaethol bob blwyddyn yn y DU, gyda 1/3 o fawndiroedd yn y DU (IUCN <http://bit.ly/peat-extraction-horticulture>)
- 20 miliwn tonnell o garbon deuocsid yn cael eu colli i'r atmosffer bob blwyddyn o fawndiroedd sydd wedi'u difrodi yn y DU (IUCN <http://bit.ly/peat-climate>)
- Dinistr y mawndiroedd yn rhyddhau symiau enfawr o CO2 (New Scientist <http://bit.ly/peatland-destruction>)

- Mae mawndiroedd yn cefnogi llawer o rywogaethau ac ecosystemau unigryw (IUCN <http://bit.ly/peat-species>)

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sam Swash, ar ôl casglu 857 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae nifer y bobl sy'n rhentu'n breifat yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn – ar hyn o bryd mae llawer yn cael eu gwahardd rhag cadw anifeiliaid anwes oherwydd cymalau yn eu cytundebau tenantiaeth.

Ni ddylai'r manteision o berchen ar anifeiliaid anwes gael eu cyfyngu i bobl sy'n berchen ar dŷ. Dylai'r rhai sy'n rhentu gael yr un hawl i gadw anifail anwes â pherchnogion tai.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Yn ôl Dogs Trust, y prif reswm dros roi cŵn mewn canolfannau ailgartrefu yw oherwydd newid mewn amgylchiadau, fel methu byw mewn eiddo rhent gydag anifail anwes. Mae'r cymalau hyn hefyd yn atal nifer fawr o bobl rhag gwirfoddoli i ailgartrefu anifeiliaid anwes; maent yn cael eu gwahardd rhag gwneud hynny i bob pwrpas o ganlyniad i'w statws fel tenant. Mae hyn yn golygu bod anifeiliaid anwes yn dioddef yn ogystal â thenantiaid.

Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU Gytundeb Tenantiaeth Enghreifftiol newydd a oedd yn gwahardd landlordiaid rhag cyflwyno gwaharddiadau cyffredinol ar anifeiliaid anwes. Caniatâd ar gyfer anifeiliaid anwes yw'r safbwynt arferol erbyn hyn. Yng Nghymru, nid yw hyn wedi'i gynnwys, ac felly mae tenantiaid Cymru yn llai tebygol o allu cadw anifail anwes na thenantiaid eraill yn y DU.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Alyn a Deeside
- Gogledd Cymru



Ein cyf/Our ref JJ/02950/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

18 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ar 21 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-06-1272 (Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru), yn gofyn beth sy'n cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl o ran Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr ar waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i hawliau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ddeddf 2016. Mae'r ymgyrch wedi targedu deiliaid contractau (tenantiaid a thrwyddedeion) a landlordiaid, ac mae'r negeseuon allweddol hefyd ar gael mewn 11 o ieithoedd a ddefnyddir yn aml yng Nghymru, yn ogystal ag yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion ar-lein, ar y radio a'r teledu, a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyhoeddwyd erthyglau ar-lein ac mewn fersiynau print o'r Western Mail a'r Daily Post. Er bod yr ymgyrch yn dal i fynd rhagddi, mae gwerthusiad cychwynnol o'i heffeithiolrwydd yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, mae cyfraddau 'clicio trwodd' uchel yn cael eu cofnodi o gynnwys ar-lein. Cysylltodd Rhentu Doeth Cymru yn uniongyrchol â landlordiaid, y gosodwyd dyletswyddau arnynt i roi contractau wedi eu trosi a sicrhau bod cartrefi yn ffit i fod yn gartrefi, drwy negeseuon rheolaidd ar e-bost ac SMS, gyda phob neges yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar y ddeddfwriaeth newydd. Mae tudalen yr ymgyrch ar gael ar: [Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU](#).

Cyhoeddwyd cyfres o ganllawiau manwl ar y ddeddfwriaeth ar ein gwefan ([Rhentu Cartrefi: mae cyfraith tai yn newid | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)) er mwyn cyd-fynd â'r ymgyrch gyfathrebu, ac ar wefannau rhanddeiliaid gan gynnwys Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl (NRLA) a Propertymark. Mae'r deunyddiau canllaw yn cynnwys, er enghraifft, y datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract, canllawiau ar drosi tenantiaethau sy'n bodoli eisoes, a'r gofynion newydd o ran ffitrwydd i fod yn gartref. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall ac iaith glir, er mwyn sicrhau bod pawb yn ei deall. Darperir hyfforddiant ar-lein am ddim ar Ddeddf 2016 gan Rhentu Doeth Cymru (gweler: [Deddf Rhentu Cartrefi: Mae'r ffordd rydych yn rhentu wedi newid – Rhentu Doeth Cymru \(llyw.cymru\)](#)), ac mae nifer o bartneriaid eraill hefyd yn cynnig hyfforddiant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 42
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy gydol y broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith, mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â miloedd o landlordiaid, asiantaethau gosod eiddo, tenantiaid a rhanddeiliaid eraill, i'w briffio ar y newidiadau ac i ateb cwestiynau unigol. Yn ei dro, llywiodd hyn y broses o gynhyrchu'r dogfennau cwestiynau cyffredin sydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gobeithio bod hyn yn grynodedb defnyddiol o'r gwaith eang sydd wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf 2016.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

17 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Deiseb P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb hon, y trafodom yn ein cyfarfod ar 16 Tachwedd. Penderfynodd yr Aelodau ofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd am lety dros dro sy'n addas i bobl ag anifeiliaid anwes yn ystod sesiwn graffu ar 7 Rhagfyr 2022 fel rhan o'u hymchwiliad i ddigartrefedd (gweler paragraffau 49 – 60 o [Gofnod y Trafodion](#)). Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"...a dog or other pets are a real source of companionship and support for people who are homeless, and owning one absolutely should not be a barrier to accessing temporary accommodation at all. And we are really pleased to say that the attitude to pets, and in particular dogs, in emergency accommodation in Wales has changed significantly over recent years, and, in particular, it changed during the pandemic. But we still have—we absolutely still have—a long way to go to ensure that we do not revert back to a position where many are excluded."

Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod disgwyl i awdurdodau lleol edrych yn fanwl ar y tai sydd ar gael i sicrhau bod pobl ag anifeiliaid anwes yn gallu cael llety:

"...we expect local authorities to look closely at the range of provision within their area to make sure it's fit for purpose and able to meet the needs of everyone, and that includes people with pets who would otherwise be sleeping rough."



O ran y sector rhentu preifat, dywedodd y Gweinidog, yn dilyn cychwyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar 1 Rhagfyr 2022, na all landlord wrthod yn afresymol gais i gael anifail anwes.

Cyfeiriwyd at eich llythyr a thystiolaeth y Gweinidog yn ein [hadroddiad](#) ar ddigartrefedd a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth (gweler paragraff 75).

Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw gynlluniau pellach i edrych yn benodol ar sut caiff 'cymalau dim anifeiliaid anwes' eu defnyddio mewn cytundebau tenantiaeth. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi os bydd y mater yn codi mewn ymchwiliadau yn y dyfodol.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Petition P-06-1272 – Ban the use of ‘no pet clauses’ in tenancy agreements in Wales

Response from petitioner, Sam Swash, to Minister for Climate Change’s letter to Jack Sargeant, Chair of the Petitions Committee 18.01.2023

The letter presented by the Minister is somewhat of a distraction from the real issue and does little to solve the problem of tenants being unfairly restricted from keeping a pet in Wales.

To date, the Minister has failed to adequately provide any confidence that the Welsh Government has any intention of preventing the continued treatment of tenants as second-class citizens in Wales.

There appears to be an inherently flawed belief that landlords generally act in good faith, when the evidence, and experience of tenants, suggests the opposite.

As such, the solutions provided to date by the Minister to tackle this problem haven’t gone anywhere near far enough. The solutions presented have been in the form of placing further impedimentary expectations onto tenants, rather than landlords.

Sadly, it reflects the depths of the institutional timidity of the Welsh Government in facing up to the private landlord lobby. Such is the extent of that timidity that the UK Conservative Government, and indeed some Conservative MSs, hold a more progressive position on tenants’ rights than the Welsh Government.

Regardless of whether the Welsh Government has undertaken what it believes to be a ‘comprehensive communications campaign’ in relation to the Renting Homes (Wales) Act 2016, it remains patently unrealistic to expect the majority of tenants to understand the minutiae of the Act, or of their ability to challenge the inclusion of an unreasonable no pet clause in an Occupation Contract.

Indeed, the Minister, in her response, states that a tenant can challenge the inclusion of a no pet clause ‘if it was unreasonable to’ have included it within the Occupation Contract. In response to this, the petitioner asks;

- 1) What does the Minister believe amounts to an ‘unreasonable clause’ when including a no pet clause in an Occupation Contract?
- 2) Where has the Welsh Government provided guidance to landlords and tenants in relation to what constitutes an ‘unreasonable clause’ to prohibit pets?
- 3) How does the Welsh Government believe a tenant should go about ‘challenging’ the unreasonable inclusion of a no pet clause within an Occupation Contract?
- 4) What are the consequences for a landlord who inserts an ‘unreasonable’ no pet clause into an Occupation Contract in Wales?
- 5) How does the Welsh Government intend to enforce the restriction of ‘unreasonable’ clauses?
- 6) How does the Minister’s response help somebody who is not an existing tenant, and faces blanket dismissals from letting agents and landlords when attempting to rent a property with a pet in Wales?

The landlord-tenant relationship is a fundamentally unequal one. To date, the responses in relation to this petition have done little but reinforce the nature of that relationship here in Wales.

Aside from the increasing financial toll of renting, the petitioner would encourage the Minister to consider the psychological hardship caused by trying to make a life for yourself in what is

ultimately someone else's spare house. Your home, your refuge, your place of safety in the world – all can be taken away from you, through no fault of your own, in order to financially enrich someone wealthier than you.

The current position of the Welsh Government is to further add to that psychological hardship by allowing landlords to restrict tenants from even possessing the small comfort of keeping a pet.

Eitem 4.4

P-06-1275 Galw ar y Llywodraeth i ail-ystyried eu penderfyniad i dynnu nôl o gynllun ffordd osgoi Llanbedr

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Annwen Hughes, ar ôl casglu cyfanswm o 2,704 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Yn dilyn misoedd o drafodaethau cadarnhaol, tynnodd y Llywodraeth allan o'r cynllun i adeiladu ffordd osgoi Llanbedr, Gwynedd, yn seiliedig ar wybodaeth ddiffygiol eu hadroddiad.

Nid yn unig bydd atal y ffordd osgoi yn andwyol i'r amgylchedd wrth i gannoedd o geir barhau i giwio yn y pentref ond mae'r penderfyniad hefyd yn ergyd anferth i unrhyw obeithion o ddatblygu swyddi safon uchel ar y maes awyr – sef prif obaith yr ardal yma o Feirionnydd o ran rhoi gwaith da i'n pobl leol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Susan Blaney, ar ôl casglu cyfanswm o XXX lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Profodd tân diweddar yng Nghlwb y Gweithwyr Tylorstown fod angen diweddarau'r seilwaith yn y Rhondda Fach ar frys. Roedd y brif ffordd wedi'i rhwystro am sawl diwrnod, dargyfeiriwyd yr holl draffig drwy strydoedd ymyl gan achosi rhwystrau a thagfeydd. Bu'n rhaid cau ysgolion, atal trafndiaeth gyhoeddus, a chanslo cludiant i'r ysgol. Nid oedd pobl yn gallu cyrraedd y gwaith ac nid oedd llwybr hygyrch ar gyfer cerbydau brys.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae'r ffordd liniaru o Tylorstown i Maerdy wedi bod yng nghynllun datblygu lleol yr Awdurdod Lleol ers blynyddoedd, ac mae'n bryd i bobl y Fach weld rhywfaint o weithredu cyflym. Ni all hyn ddigwydd gyda "rhewi" Llywodraeth Cymru ar ffyrdd newydd fel y mae.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Rhondda
- Canol De Cymru

Eitem 4.6

P-06-1286 Sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID19

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ellie-may Sharpe, ar ôl casglu cyfanswm o 50 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cael trafferth gyda chanser yn cael triniaeth amserol ac yn cael cyfle cyfartal i frwydro canser lle bynnag maent yn byw yng Nghymru. Mae hefyd yn hanfodol i gefnogi teuluoedd sydd ag aelodau o'r teulu â chanser.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Rydym am i'r ddeiseb hon fynd ymhell a chyrraedd teuluoedd sy'n cael trafferth ac er mwyn darparu adnoddau a chyfleusterau i bobl.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Caerffili
- Dwyrain De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1286
Ein cyf/Our ref EM/03813/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr arall ynghylch deiseb rhif P-06-1286 ynglŷn â sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer cancer yn parhau yn ystod pandemig COVID-19.

Gwnaethoch chi ofyn pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag amseroedd aros cancer dros y misoedd diwethaf, a ph'un a ydynt wedi dychwelyd at yr amseroedd aros cyn y pandemig.

Mae'n galonogol iawn gweld nifer yr atgyfeiriadau cancer bellach yn uwch yn gyson na'r lefel cyn y pandemig. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd â symptomau lle'r amheuir cancer yn hyderus i fynd i weld eu meddyg teulu. Roedden ni'n poeni nad oedd pobl yn mynd i weld eu meddyg teulu am eu symptomau. Ym mis Awst (y data diweddaraf sydd ar gael), cafodd GIG Cymru 16,389 o atgyfeiriadau ar gyfer achosion lle'r amheuir cancer, y nifer uchaf a gafwyd erioed.

Mae'r cynnydd cyson hwn yn y galw, yn ogystal â'r problemau o ran capasiti a geir ar y cam cyntaf i gleifion allanol, ac ar y cam rhoi diagnosis yn y llwybr, yn effeithio ar ein gallu i drin cleifion o fewn 62 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n dechrau triniaeth o fewn mis yn parhau i gynyddu ac ym mis Awst, gwnaeth bron 1,700 o gleifion ddechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer cancer, sef y nifer uchaf ers mis Mawrth. Yn ffodus, ym mis Awst cafodd 13,500 o gleifion wybod nad oedd cancer arnynt, sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, a chawsant eu symud oddi ar y llwybr lle'r amheuir cancer o ganlyniad i hynny. Mae'n bwysig cofio bod y cleifion y canfyddir nad oes cancer arnynt hefyd yn cael eu gweld ac yn cael diagnosis o fewn y targedau a osodwyd. Mae'r data diweddaraf ar gyfer mis Awst yn dangos bod nifer y bobl sy'n dechrau triniaeth neu sy'n cael eu symud oddi ar y llwybr triniaeth yn uwch na'r hyn a gofnodwyd erioed, ac yn parhau'r duedd ar i fyny a gafwyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynheliais uwchgynhadledd ganser ym mis Hydref, gan ei gwneud yn glir i'r byrddau iechyd ei bod yn bwysig bod camau pellach yn cael eu cymryd i wella perfformiad ym maes gofal canser, ac i sicrhau bod cleifion sy'n sâl yn glinigol yn cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd perfformiad yn gwella tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

P-06-1297 Dod â "llosgi dan reolaeth" i ben yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Maya James, ar ôl casglu 604 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae tân diweddar ar y Mynydd Mawr, Gwynedd, wedi tynnu sylw at y broblem enfawr o "llosgi dan reolaeth". Cafodd y tân ei gynnu yn ystod y tymor a ganiateir (rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth 31) er gwaethaf y tywydd sych a'r gwyntoedd cryfion diweddar, ac o gofio bod llawer o adar eisoes wedi dechrau nythu.

Disgrifiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yr effaith drychinebus ar y mynydd. Mae'r mwg wedi creu trafferth i bobl leol, ac roedd criwiau o dde Cymru wedi gorfod dod i gynorthwyo hefyd.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Ar un adeg, effeithiodd y tân ar ardal o tua 100,000 metr sgwâr. Nid yw hyn yn ddigwyddiad unigryw.

Y llynedd, bu dros 2,000 o dannau glaswelltir yng Nghymru, ac roedd dros 75 y cant o'r rhain wedi eu cynnu yn fwriadol.

Mae'r tannau hyn yn:

- rhoi iechyd a diogelwch criwiau tân, a thrigolion ac eiddo lleol, yn y fantol;
- peryglu bywydau pobl trwy ailgyfeirio ymdrech ac amser y gwasanaeth tân;
- arwain at gost annerbyniol i'r trethdalwr – gall hyn fod yn gannoedd o filoedd o bunnoedd, yn ôl gwasanaeth tân Gogledd Cymru;
- rhyddhau carbon a chreu mwg mewn cyfnod o argyfwng hinsawdd; ac yn
- cael effaith ofnadwy ar ein hadar nythu a bywyd gwyllt arall fel y wiber, sydd yn barod mewn perygl, a hynny mewn argyfwng bioamrywiaeth. Yn draddodiadol, roedd y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth yn oer a gwlyb yng Nghymru, ond erbyn hyn mae'r hinsawdd wedi newid, gyda'r tywydd mwyn yn newid y tymor nythu ac adfywiad bywyd gwyllt. Mae'r RSPB yn mynnu bod llosgi mawndir ar yr ucheldiroedd yn dod i ben oherwydd y pryderon ynghylch cadwraeth a'r argyfwng hinsawdd.

Rydym yn galw ar Llywodraeth Cymru i ddod â "llosgi dan reolaeth" i ben ar fyrder.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Delyn
- Gogledd Cymru

Jack Sargeant MS
Chair, Petitions Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN



Petitions@senedd.wales

16 March 2023

Dear Mr Sargeant

Petition P-06-1297 Stop "Controlled Burning" in Wales

Please accept our apologies for not having replied to your letter of 24 November.

We have sympathy with the petition's concerns about "controlled burning", both for its impact on peat soils and for the effect of uncontrolled fire on the habitats of birds and other animals, particularly reptiles. We believe that Welsh Government should review the *Heather and Grass Burning Code* for Wales, incorporating advice and evidence from Natural Resources Wales and others.

We should state at the outset that controlled burning can have a place in habitat restoration in some limited situations, but its effectiveness has been challenged and depends on multiple factors, including the intensity and scale of the fire. The merits of a controlled burn at a particular site must be assessed against the damage that a fire can cause to sensitive habitats, such as deep peat, and the *Code* rightly presumes against burning on such habitats. Furthermore, for a burn to be controlled relies on experienced practitioners and having sufficient mitigation measures, including trained people to prevent it getting out of control.

Pencadlys RSPB Cymru
Castlebridge 3
5-19 Heol Ddwyreiniol y
Bontfaen
Caerdydd
CF11 9AB

RSPB Cymru Wales
Headquarters
Castlebridge 3,
5-19 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AB

Ebost/Email:
cymru@rspb.org.uk
Facebook: RSPB Cymru
Twitter: @RSPBCymru
Instagram: rspbcymru
rspb.org.uk



Mae'r RSPB yn aelod o BirdLife International, partneriaeth o gyrrff cadwraeth sy'n gweithio i sicrhau cartref i fyd natur o amgylch y byd.

The RSPB is part of BirdLife International, a Partnership of conservation organisations working to give nature a home around the world.

RSPB never burns vegetation on peat and generally uses cutting or grazing to manage vegetation on any soil, although we undertake limited controlled burns on mineral soils on parts of our South Stack and Ramsey nature reserves where cutting is not feasible. Our experience is that cutting is more practical especially given the wet and breezy conditions in Wales that limit the opportunities for burning, and so the need for burning is very localised and specific.

Burning on deep peat

Despite the ability of peatlands to sequester and store huge amounts of carbon, the UK's peatlands are currently a net source of emissions. Peatlands account for [4.3% of the land area of Wales](#) but store up to 30% of our soil carbon, some [65.8 million tonnes](#). The UK's blanket bogs are globally rare ecosystems, protected under UK and international law. However much of this peat is in poor condition, with dry soils releasing emissions and failing to support wetland species. This is mainly due to drainage and burning. Our upland peatland should be a net carbon sink, it is instead a source of emissions. If the Government is serious about tackling the climate and ecological crisis, it must end burning on peatland habitats and scale up restoration such that degraded peat is brought under positive management.

The Welsh Government *Heather and Grass Burning Code* (2008) has a presumption against burning on sensitive habitats, including blanket bog with peat soils deeper than 50cm. Considerably more evidence on the impact of burning on peat has been obtained since the *Code* was last updated 15 years ago. We note that in England, Defra prohibits burning on peat greater than 40cm depth. We would urge Welsh Government, informed by the latest evidence and through the lens of the climate and nature emergency, to review the Code. **We believe that there is a strong case for burning to cease on peat soils, particularly on blanket bog, deeper than 30cm.**

Pencadlys RSPB Cymru
Castlebridge 3
5-19 Cowbridge Road East
Caerdydd
CF11 9AB

Email: cymru@rspb.org.uk
Facebook: RSPB Cymru
Twitter: @RSPBCymru
Instagram: [rspbcmru](https://www.instagram.com/rspb.cymru)
[rspb.org.uk](https://www.rspb.org.uk)



Mae'r RSPB yn aelod o BirdLife International, partneriaeth o gyrrff cadwraeth sy'n gweithio i sicrhau cartref i fyd natur o amgylch y byd.

The RSPB is part of BirdLife International, a Partnership of conservation organisations working to give nature a home around the world.

Timing of burning

Under [The Heather and Grass etc Burning \(Wales\) Regulations 2008](#), Ministers have set the dates of burning as 1 October to 31 March in the majority of Wales and 1 November to 15 March in lower altitude areas.

A review of the timing of nesting by selected birds by the British Trust for Ornithology (BTO) ([Wilson et al. 2021](#)) found that the timing of egg-laying, while varying by species, is advancing by 1–2 days per decade. At a GB level, egg-laying has started in 31% of Peregrine nests before burning ceases on 31 March, 15% of Lapwing nests, 10% of Golden Plover, 8% of Stonechat and 7% of Snipe. It is important to note that selection of a territory and nest-building starts some time before the first egg is laid and that the dates are based on an average across the whole of Britain, not in the milder conditions experienced in Wales. **We believe a review of the dates in Wales should consider a 'buffer' period to reduce the likelihood of nesting attempts being disrupted.** A review of dates should also account for other wildlife interests, including threatened reptiles and plants.

Wildfire

Wildfire is a growing concern, both grassland fires resulting from arson and 'controlled' burns that became uncontrolled. When those occur on, or spread into, peat soils, the consequences can be long-lasting and resource-hungry, as illustrated by the Llantysilio fire in Denbighshire in 2018. Some argue that burning, including on peat soils, has a key role to play in reducing fuel load. A Defra-funded study ([Heinemeyer et al. 2020](#)) concluded that cutting was less damaging than burning. **Restoring peatlands to good condition, including blanket bogs to the wetlands they should be, is widely acknowledged as the most effective long-term solution to minimise fire risk on and damage to peat, as well as delivering other benefits for carbon sequestration, water quality and nature.** The National Peatland Action Programme estimates that 63,830 ha, 71% of peatland in Wales, requires restoration, having been modified or used for agriculture or forestry.

Pencadlys RSPB Cymru
Castlebridge 3
5-19 Cowbridge Road East
Caerdydd
CF11 9AB

Email: cymru@rspb.org.uk
Facebook: RSPB Cymru
Twitter: @RSPBCymru
Instagram: [rspbcymru](https://www.instagram.com/rspb.cymru)
[rspb.org.uk](https://www.rspb.org.uk)



Mae'r RSPB yn aelod o BirdLife International, partneriaeth o gyrrff cadwraeth sy'n gweithio i sicrhau cartref i fyd natur o amgylch y byd.


The RSPB is part of BirdLife International, a Partnership of conservation organisations working to give nature a home around the world.

Enforcement and reviewing the Regulations and Code

The climate emergency increases the risk of large wildfires by making landscapes, globally, more susceptible to burn more often and more severely, according to [research co-authored by Swansea University](#). Deliberate burning must not contribute unnecessarily to either carbon release or damage to nature, and thus we urge Welsh Government to commit to periodic reviews of the evidence, including its value for farming in the context of the aims of the Agriculture (Wales) Bill. Such **a review would also consider whether existing monitoring and enforcement of the Code are sufficient, both within and outside sites designated for nature**. RSPB scientists have developed a means to monitor burns using remote-sensing satellites, which could support this.

We urge the Petitions Committee to ask the Minister to review the regulations and statutory code on 'controlled burning' in Wales, ensuring that they align with and support the objectives of Sustainable Management of Natural Resources and Sustainable Land Management.

Yours sincerely



Dr Sharon Thompson

Head of Policy and Advocacy

Pencadlys RSPB Cymru
Castlebridge 3
5-19 Cowbridge Road East
Caerdydd
CF11 9AB

Email: cymru@rspb.org.uk
Facebook: RSPB Cymru
Twitter: @RSPBCymru
Instagram: [rspbcymru](https://www.instagram.com/rspbcymru)
rspb.org.uk



Mae'r RSPB yn aelod o BirdLife International, partneriaeth o gyryff cadwraeth sy'n gweithio i sicrhau cartref i fyd natur o amgylch y byd.

The RSPB is part of BirdLife International, a Partnership of conservation organisations working to give nature a home around the world.

P-06-1297 Dod â "llosgi dan reolaeth" i ben yng Nghymru, Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor, 17.03.23

Annwyl Y Pwyllgor Deisebau

Diolch yn fawr am ofyn am farn ac arbennigedd yr RSPB yn y maes hwn.

Rwyf yn cymeradwyo eu safbwynt a gofynion.

Hoffwn bwysleisio bod y CCC (Climate Change Committee) yn galw ar llywodraethau y DU i ddod a llosgi dan reolaeth i ben er mwyn gwarchod y "carbon sink" pwysig hon.

<https://www.theccc.org.uk/2020/01/23/major-shift-in-uk-land-use-needed-to-deliver-net-zero-emissions/>.

Efo argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth yng Nghymru rhaid ail-feddwl y rheolau cyfredol a gwneud newidiau positif a dewr ar gyfer ein dyfodol.

Yn gywir
Maya Eirian James

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon